

# Etholiadau cyngorau cymuned yng Nghymru

## Canllawiau i ymgeiswyr

### Rhan 2b o 6 – Sefyll fel ymgeisydd plaid

Ionawr 2022

Dim ond i etholiadau cyngorau cymuned yng Nghymru y mae'r ddogfen hon yn gymwys. Nid yw'n gymwys i etholiadau sirol nac etholiadau mewn bwrdeistrefi sirol. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan yn:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant>

# Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol .....	2
Cwblhau eich papurau enwebu .....	3
Cyflwyno eich papurau enwebu .....	12
Tynnu'n ôl .....	15
Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?	15
Penodi eich asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif .....	17
Marwolaeth ymgeisydd .....	19
Gwybodaeth atodol .....	20
Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin .....	20
Datganiad aelodaeth plaid .....	21
Marwolaeth ymgeisydd .....	23

# Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar sefyll fel ymgeisydd plaid mewn etholiad cyngor cymuned.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arferion da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon yn rhai cyffredinol. Rydym wedi cyhoeddi [amserlen gyffredinol ar gyfer etholiadau ar ein gwefan](#). Ar gyfer unrhyw is-etholiad, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein [dogfen Trosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol.

Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithio arnoch chi.

Nid yw'r ddogfen hon yn cwmpasu etholiadau cynghorau plwyf yn Lloegr.

Gallwch gael gafeael ar ganllawiau ar gyfer yr etholiadau hynny ar ein gwefan.

## Cwblhau eich papurau enwebu

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan -Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, 2021 - Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021a -Reoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Ôl-ddilynol) (Cymru) 2022

sy'n dod i rym ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned a gynhelir ar ac ar ôl 5 Mai 2022.

1.1 I gael eich enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad cyngor cymuned yng Nghymru, rhaid i chi gyflwyno set wedi'i chwblhau o bapurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad.<sup>1</sup> Pennir y dyddiad cau hwn yn ôl y gyfraith ac ni ellir ei newid am unrhyw reswm. Nodir y dyddiad pan allwch ddechrau cyflwyno papurau enwebu<sup>2</sup>, yn ogystal â'r amseroedd a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno, yn yr hysbysiad etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau lleol.

1.2 Rhaid i chi gyflwyno dau bapur enwebu er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys:<sup>3</sup>

- y ffurflen enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref

1.3 Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg> a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru<sup>4</sup>.

1.4 Cewch ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid<sup>5</sup> neu ddisgrifiad cyhyd â'u bod

# 4

wedi'u cofrestru â'r Comisiwn. Rhestrir cyfieithiadau o enwau pleidiau ar y wefan o dan 'enw amgen' a rhestrir cyfieithiadau o ddisgrifiadau i'r dde o'r disgrifiad o dan 'cyfieithiad(au)'.

1.5 Os na chaiff cyfieithiad o enw plaid ei restru, neu os na chaiff cyfieithiad ei gofnodi yn erbyn disgrifiad, yna ni fydd cyfieithiad wedi'i gofrestru ac ni ellir ei ddefnyddio.

1.6 Os byddwch am ddefnyddio enw plaid gofrestredig neu ddisgrifiad plaid gofrestredig nad yw eisoes yn cynnwys 'Cymru', 'Cymreig', 'Wales' neu 'Welsh', yna gallwch ddewis ychwanegu 'Cymru', 'Cymreig', 'Wales' neu 'Welsh' at enw cofrestredig y blaid yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu fel y'i rhoddir ar y dystysgrif .<sup>6</sup>

1.7 Gellier defnyddio 'Cymru / Cymreig Wales / Welsh' gydag enw cofrestredig y blaid hefyd, os yw'r enw'n rhan o ddisgrifiad cofrestredig, wedi'i awdurdodi gan y dystysgrif.

1.8 Bydd angen i chi gyflwyno'r canlynol hefyd:

- Tystysgrif sy'n eich awdurdodi i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio (sef y [dystysgrif awdurdodi](#)).<sup>7</sup> I gael rhagor o fanylion am y dystysgrif awdurdodi, gweler paragraff **1.29**.
- Cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau'r blaid<sup>8</sup> (os hoffech i un ymddangos ar y papur pleidleisio). I gael rhagor o wybodaeth am y [ffurflen gwneud cais am arwyddlun](#), gweler paragraff **1.36**.

1.9 Gallwch gysylltu â'r swyddfa etholiadau leol i gael gwybod sut i gael gafael ar bapurau enwebu. Gellir cael manylion cyswllt o'n gwefan

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>. Fel arall, mae'r Comisiwn wedi llunio set o [bapurau enwebu](#) y gallech ei defnyddio.

1.10 Os na allwch chi neu rywun rydych yn ymddiried ynddo gwblhau'r ffurflen enwebu, gall y Swyddog Canlyniadau eich helpu drwy baratoi'r ffurflen i chi ei llofnodi.<sup>9</sup> Dylech wirio gyda'r Swyddog Canlyniadau cyn gynted â phosibl pa gymorth a allai fod ar gael.

1.11 Gall y Swyddog Canlyniadau ddarparu briffiau ar bwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad ac unrhyw newidiadau i'r rheolau ers yr etholiad diwethaf. Dylech ofyn i'ch Swyddog Canlyniadau a ydynt yn cynnal sesiynau briffio ymgeiswyr, ble maent yn cael eu cynnal a phryd.

1.12 Efallai y gall y Swyddog Canlyniadau hefyd gynnig bwrw golwg anffurfiol dros eich papurau enwebu a gwblhawyd cyn i chi eu cyflwyno. Dylech gael rhagor o wybodaeth gan y Swyddog Canlyniadau o ran a yw'n bwriadu cynnig gwiriadau anffurfiol.

1.13 Gellir darparu gwiriadau anffurfiol yn bersonol, o bell drwy e-bost neu'r ddwy ffordd. Os bydd y Swyddog Canlyniadau yn cynnig gwiriadau anffurfiol, dylech holi ynghylch y trefniadau penodol sydd ar waith i wneud hynny. Er enghraifft, efallai y bydd system apwyntiadau neu gyfeiriad e-bost penodol i'w ddefnyddio.

1.14 Dylech gyflwyno eich papurau enwebu i gael gwiriad anffurfiol cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau fwrw golwg drostynt a rhoi digon o amser i chi gyflwyno papurau enwebu newydd os bydd eich set gyntaf yn cynnwys unrhyw wallau.

1.15 Noder bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi ar eich papurau enwebu fod yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar eich papurau enwebu. Gallai rhoi datganiad ffug annilysu eich etholiad, a gallech hefyd wynebu dirwy anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar.<sup>10</sup>

## Y ffurflen enwebu

1.16 Rhaid i'r [ffurflen enwebu](#) gael ei chwblhau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- **Eich enw llawn.**<sup>11</sup> Nodwch eich cyfenw a'ch enwau eraill yn llawn ar ei ôl. Gallai defnyddio llythrennau cyntaf yn unig arwain at wrthod eich papur enwebu. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyngh. fel rhan o'ch enw. Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gennych deitl, gallwch

Gall y Swyddog Canlyniadau benderfynu bod eich papur enwebu yn annilys os nad yw manylion eich enwebiad yn unol â gofynion y gyfraith.

Hefyd, gall y Swyddog Canlyniadau wrthod eich enwebiad os daw i'r casgliad ei fod yn un ffug, er enghraifft, os rhoddir enw neu gyfeiriad sy'n amlwg yn ffug.

# 6

ddefnyddio hwn fel eich enw llawn. Er enghraifft, os mai Joseph Smith yw eich enw gwirioneddol, ond mai eich teitl etifeddol yw Joseph Avon, gallwch ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel eich enw llawn.

- **Datganiad aelodaeth plaid**<sup>12</sup> Rhaid i chi gynnwys datganiad aelodaeth plaid yn nodi a ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis diwethaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Datganiad aelodaeth plaid, gweler paragraff **1.84**
- **Datganiadau:**<sup>13</sup> Ar y papur enwebu, rhaid i chi gwblhau a llofnodi'r datganiadau canlynol:
  - eich bod yn gymwys ar y diwrnod y byddwch yn cwblhau eich papur enwebu ac ar ddiwrnod yr etholiad i gael eich ethol yn gynghorydd yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol o'r Undeb neu'n ddinesydd tramor cymwys sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ddiwrnod yr etholiad; ac
  - rydych yn bodloni o leiaf un o'r amodau cymhwyso ar gyfer sefyll etholiad a restrir yn y datganiad ar y papur enwebu. Rhaid i chi nodi pa un neu fwy o'r amodau cymhwyso a) – d) sy'n gymwys i chi drwy roi tic wrth ymyl y rhai sy'n gymwys a rhoi llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gymwys. I gael esboniad o'r amodau cymhwyso, gweler [Rhan 1: A allwch sefyll etholiad?](#)
  - nid ydych wedi'ch anghymhwyso rhag cael eich ethol yn gynghorydd hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred – [gweler Rhan 1: A allwch sefyll etholiad](#) am ragor o wybodaeth.
- **Llofnod a llofnod tyst:**<sup>14</sup> Rhaid i chi lofnodi eich papur enwebu. Rhaid i'ch llofnod gael ei dystio; a rhaid i'r tyst roi ei enw llawn a'i gyfeiriad llawn ar y ffurflen cyfeiriad cartref<sup>15</sup>. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst.

Nid oes angen i chi gynnwys llofnodion gan danysgrifwyr ar eich ffurflen enwebu.

1.17 Mae'r canlynol yn ddewisol:

- **Enw a ddefnyddir yn gyffredin**<sup>16</sup> – os ydych yn defnyddio enw sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'ch enw gwirioneddol a hoffech iddo ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff **1.76**.
- **Disgrifiad** – gallwch ofyn am gael cynnwys naill ai enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid ar y papur pleidleisio o dan eich enw. Cewch ddefnyddio naill ai'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru â ni.<sup>17</sup>
- Pan yn defnyddio enw plaid neu ddisgrifiad, rhaid i chi gyflwyno tystysgrif, gyda'ch papurau enwebu eraill, sy'n dangos eich bod wedi eich awdurdodi i ddefnyddio enw'r blaid neu'r disgrifiad (sef tystysgrif awdurdodi).<sup>18</sup> Rhaid i'r dystysgrif gael ei chyflwyno gan Swyddog Enwebu'r blaid gofrestredig (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran) a dod i law y Swyddog Canlyniadau erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad.<sup>19</sup> Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dystysgrif ym mharagraff **1.29**.
- Os ydych am ddefnyddio enw plaid gofrestredig nad yw'n cynnwys Cymru neu Gymreig neu Wales neu Welsh, yna gellir ychwanegu enw'r blaid gofrestredig gyda Cymru neu Gymreig neu Wales neu Welsh yn y blwch disgrifiad ar y papurau enwebu (gan gynnwys pan fo enw'r blaid yn rhan o'r disgrifiad cofrestredig)
- Os ydych yn sefyll ar ran dwy blaid neu fwy, cewch ddefnyddio disgrifiad ar y cyd. Mae'n rhaid i'r ddwy blaid fod wedi eu cofrestru â'r Comisiwn.

Gellir gweld enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig ar [ein cofrestr ar-lein](#).

Os hoffech sefyll fel ymgeisydd annibynnol, gweler [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) am ragor o wybodaeth.



# 8

- Gall y disgrifiad ar y cyd ddangos naill ai neu'r ddau:
- enwau cofrestredig y pleidiau ac unrhyw gysyllteiriau ac atalnodi priodol yn Saesneg neu
- enwau cofrestredig y pleidiau ac unrhyw gysyllteiriau ac atalnodi priodol yn Gymraeg.

1.18 Os nad yw'r disgrifiad ar y cyd a ddefnyddir eisoes yn cynnwys y geiriau Cymru / Cymreig/ Wales / Welsh / <sup>20</sup> gall ymgeiswyr ei ragddodio â 'Wales' neu 'Welsh' ar y fersiwn Saesneg neu ei ôl-ddodi gyda , 'Cymru' neu 'Cymreig' yn y fersiwn Gymraeg, yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu.

1.19 Gellir defnydio y geiriau Cymru / Cymreig/ Wales / Welsh / gydag un enw plaid neu bob enw plaid a ddefnyddir yn y disgrifiad ar y cyd, cyn belled nad yw'r geiriau eisioes yn ffurfio rhan o enw cofrestredig y plaid.

1.20 Chi sydd i benderfynu ym mha drefn y mae enwau'r pleidiau yn ymddangos yn y disgrifiad ar y cyd.

1.21 Yn yr achos hwnnw, bydd angen i chi gael cymeradwyaeth y Swyddog Enwebu ar gyfer pob un o'r partion cofrestredig (neu bobl sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan).

1.22 Dylech fod yn arbenning o ofalus gwblhau'r blwch disgrifio ar y ffurflen enwebu. Os nad yw enw'r plaid neu unrhyw ddisgrifiad penodol yn ymddangos [ar gofrestr ar-lein y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) fel plaid a all ymgeisio mewn etholiadau yng Nghymru, caiff y ffurflen enwebu ei gwrthod.

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio disgrifiad. Gallwch ddewis peidio â chael disgrifiad o gwbl, drwy adael maes disgrifiad y ffurflen yn wag.

## Ffurflen cyfeiriad cartref<sup>21</sup>

1.22 Mae'n ofynnol i chi gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref y mae'n rhaid iddi gael ei chyflwyno gyda'r papur enwebu erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad.

- Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan: eich enw llawn (gweler paragraff **1.16**)
- unrhyw enwau a ddefnyddir yn gyffredin<sup>22</sup>, os yw'r rhain wedi'u cynnwys ar eich ffurflen enwebu
- eich cyfeiriad cartref yn llawn
- eich cyfeiriad cymwys, neu eich cyfeiriadau cymwys lle rydych wedi datgan ar eich ffurflen enwebu eich bod yn bodloni mwy nag un amod cymhwyso
- pa amod(au) cymhwyso y mae eich cyfeiriad(au) cymwys yn gysylltiedig ag ef/â nhw
- enw llawn a chyfeiriad cartref y tyst ar eich ffurflen enwebu

#### 1.23 Eich cyfeiriad cartref:

- rhaid iddo gael ei gwblhau'n llawn
- ni ddylai gynnwys talfyriadau
- rhaid mai eich cyfeiriad cartref cyfredol ydyw
- ni ddylai fod yn gyfeiriad busnes (oni fyddwch yn rhedeg busnes o'ch cartref)

1.24 Gallwch ddewis i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio.

1.25 Yn yr achos hwn, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys y canlynol, yn ogystal â'ch enw llawn a'ch cyfeiriad cartref.<sup>23</sup>

- datganiad, wedi'i lofnodi gennych chi, sy'n nodi nad ydych yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi
- enw'r ardal berthnasol y mae eich cyfeiriad cartref ynddi (os yw eich cyfeiriad cartref yn y DU)
- os ydych yn byw y tu allan i'r DU, enw'r wlad lle lleolir eich cyfeiriad cartref

1.26 Rhaid i'r ardal berthnasol a ddarperir gennych ar eich ffurflen cyfeiriad cartref fod yn y fformat a ddisgrifir ym mharagraff **1.28** isod. Nid ward nac enw llawn yr awdurdod lleol yw'r ardal berthnasol

# 10

## Ystyr cyfeiriad cymwys ac ardal berthnasol<sup>24</sup>

### 1.27 Ystyr cyfeiriad cymwys:

- lle rydych wedi dewis opsiwn (a) ar y ffurflen enwebu, y cyfeiriad yn llawn lle rydych wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol
- lle rydych wedi dewis opsiwn (b) ar y ffurflen enwebu, cyfeiriad y tir neu'r eiddo hwnnw rydych wedi'i feddiannu fel perchennog neu denant a disgrifiad ohono
- lle rydych wedi dewis opsiwn (c) ar y ffurflen enwebu, cyfeiriad eich gweithle
- lle rydych wedi dewis opsiwn (d) ar y ffurflen enwebu, y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau yn llawn lle rydych wedi byw

### 1.28 Ystyr ardal berthnasol:<sup>25</sup>

- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yng Nghymru:**
  - os yw'r cyfeiriad mewn sir, y sir honno;
  - os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref sirol, y fwrdeistref sirol honno
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yn Lloegr:**
  - os yw'r cyfeiriad mewn dosbarth lle mae cyngor dosbarth, y dosbarth hwnnw;
  - os yw'r cyfeiriad mewn sir lle nad oes dosbarthau sydd â chynghorau, y sir honno;
  - os yw'r cyfeiriad yn un o fwrdeistrefi Llundain, y fwrdeistref honno yn Llundain;
  - os yw'r cyfeiriad yn Ninas Llundain (gan gynnwys y Deml Fewnol a'r Deml Ganol), Dinas Llundain;
  - os yw'r cyfeiriad yn Ynysoedd Scilly, Ynysoedd Scilly
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yn yr Alban:**
  - yr ardal llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad ynddi
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yng Ngogledd Iwerddon:**
  - y dosbarth llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad ynddo

## Y dystysgrif awdurdodi<sup>26</sup>

1.29 Mae pleidiau gwleidyddol yn awdurdodi ymgeiswyr i sefyll ar eu rhan drwy roi dystysgrif awdurdodi. Rhaid i'r dystysgrif hon nodi y gall yr ymgeisydd ddefnyddio un o'r canlynol:<sup>27</sup>

- enw cofrestredig y blaid, neu

- os yw'r blaid wedi cofrestru enw yn Gymraeg ac enw yn Saesneg, un o'r enwau hynny neu'r ddau enw, neu
- disgrifiad cofrestredig o'r blaid, neu
- yn achos disgrifiad sydd wedi cael ei gofrestru yn Gymraeg ac yn Saesneg, un o'r disgrifiadau hyn neu'r ddau ddisgrifiad

1.30 Dylai'r Swyddog Enwebu (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran) fod yn hynod ofalus wrth gwblhau'r dystysgrif awdurdodi.

1.31 Dylech gymryd gofal arbennig i sicrhau bod enw'r blaid neu'r disgrifiad a ddarperir gennych ar y ffurflen enwebu yn cyfateb i enw'r blaid neu'r disgrifiad a awdurdodir gan y dystysgrif neu bydd yr enwebiad cyfan yn annilys.

1.32 Fodd bynnag, Os nad yw enw cofrestredig y blaid eisoes yn cynnwys 'Cymru / Cymreig / Wales / Welsh' yna gallwch ddewis ychwanegu 'Wales / Welsh / Cymru / Cymreig' at enw cofrestredig y blaid fel y'i rhoddir ar y dystysgrif.

1.33 Gellir defnyddio 'Wales / Welsh / Cymru / Cymreig' gydag enw cofrestredig y blaid hefyd, os yw'r enw'n ffurfio rhan o ddisgrifiad cofrestredig, wedi'i awdurdodi gan y dystysgrif. Rhaid i'r dystysgrif awdurdodi gael ei llofnodi gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid wleidyddol, neu gan rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar ei ran.

1.34 Mae'n drosedd dweud yn dwyllodrus fod person wedi'i awdurdodi i gyflwyno tystysgrif awdurdodi ar ran swyddog enwebu plaid wleidyddol gofrestredig.<sup>28</sup>

1.35 Os ydych yn sefyll ar ran mwy nag un blaid wleidyddol, bydd angen i chi gael tystysgrif awdurdodi gan Swyddog Enwebu pob un o'r pleidiau cofrestredig (neu bobl sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan) erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

## Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio<sup>29</sup>

1.36 Os ydych wedi eich awdurdodi gan blaid wleidyddol i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio, gallwch hefyd wneud cais am i un o arwyddluniau

# 12

swyddogol y blaid gael ei argraffu ar y papur pleidleisio wrth ymyl eich enw.

1.37 Rhaid<sup>30</sup> i chi wneud cais ysgrifenedig am arwyddlun a'i gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau. Mae'n rhaid<sup>31</sup> i'r Swyddog Canlyniadau gael y cais erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Gall y Swyddog Canlyniadau ddarparu ffurflen y gallwch ei defnyddio i wneud y cais hwn neu, fel arall, gallwch ddefnyddio'r [ffurflen gwneud cais am arwyddlun](#) a gynhyrchwyd gan y Comisiwn.

1.38 Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol a'r disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y'u rhestrir ar [gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn](#). Ni ellir newid arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw ffordd.

1.39 Caiff ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran dwy blaid gofrestredig neu fwy ac sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd ddefnyddio arwyddlun sydd wedi'i gofrestru gan un o'r pleidiau gwleidyddol. Mae'n rhaid i'r cais<sup>32</sup> gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau erbyn i'r enwebiadau gau, h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Gall y Swyddog Canlyniadau ddarparu ffurflen y gallwch ei defnyddio i wneud y cais hwn neu, fel arall, gallwch ddefnyddio'r [ffurflen gwneud cais am arwyddlun](#) a gynhyrchwyd gan y Comisiwn. Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol sydd wedi cofrestru'r arwyddlun yr hoffech ei ddefnyddio a'r disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y'i rhestrir ar [gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn](#).

## Cyflwyno eich papurau enwebu

1.40 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich papurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd a nodir yn yr hysbysiad etholiad ac erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

1.41 Rhaid i'ch papur enwebu, y ffurflen cyfeiriad cartref, y dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gwneud cais am arwyddlun gael eu cyflwyno erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad

- i'r man a nodir ar yr hysbysiad etholiad<sup>33</sup> neu
- fel y nodir yn y datganiad cyflwyno electronig ar yr hysbysiad etholiad<sup>34</sup>

1.42 Bydd trefniadau ar waith gan y Swyddog Canlyniadau a fydd yn caniatáu i chi gyflwyno eich papurau enwebu yn electronig. Caiff cyfeiriad e-bost neu borth ar-lein ei ddarparu'n benodol at ddiben cyflwyno papurau enwebu yn electronig. I gael rhagor o wybodaeth am gyflwyno papurau enwebu yn electronig, gweler paragraff **1.89**.

1.43 Rydym yn argymhell eich bod chi, neu rywun rydych yn ymddiried ynddo, yn cyflwyno eich papurau enwebu â llaw neu'n electronig fel y gallwch fod yn sicr eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau yn y ffordd ofynnol ac mewn pryd.

## Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

- 1.44 Gall y papur enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref gael eu cyflwyno naill ai:
- â llaw<sup>35</sup> neu
  - yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig a ddarperir gan y Swyddog Canlyniadau ar yr hysbysiad etholiad<sup>36</sup>.

1.45 Pan caiff dogfen ei chyflwyno'n electronig, gellir ei llofnodi'n electronig - gallai hyn fod ar ffurf llofnod wedi'i deipio er enghraifft

1.46 Os byddwch yn cyflwyno eich papur enwebu â llaw, rhaid cyflwyno'r **fersiwn wreiddiol** o bob papur a gwblhawyd. **Ni ellir** danfon papurau enwebu drwy'r post.

1.47 Rhaid i'r dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gwneud cais am arwyddlun gael eu cyflwyno â llaw, drwy'r post neu drwy ddull electronig.

# 14

## Pryd y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.48 Dylech gyflwyno eich papurau enwebu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau fwrw golwg anffurfiol drostynt a rhoi digon o amser i chi gyflwyno papurau enwebu newydd os bydd eich set gyntaf yn cynnwys unrhyw wallau.

1.49 Caiff yr hysbysiad etholiad ei gyhoeddi o fewn 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad a bydd yn nodi pryd y gellir cyflwyno enwebiadau<sup>37</sup> â llaw a'r trefniadau sydd ar waith i gyflwyno enwebiadau'n electronig.<sup>38</sup> Caiff yr hysbysiad etholiad ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol y mae'r gymuned wedi'i lleoli ynddo.<sup>39</sup>

1.50 Fel arfer, dim ond yn ystod oriau swyddfa arferol y gellir cyflwyno papurau enwebu â llaw. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau'r union fanylion o ran pryd a ble y gellir cyflwyno papurau enwebu yn bersonol a'r trefniadau ar gyfer eu cyflwyno'n electronig ar yr hysbysiad etholiad.

1.51 Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau cyn gynted â phosibl er mwyn gweld pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflwyno papurau enwebu yn bersonol ac yn electronig. Byddwch yn gallu cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau drwy swyddfa etholiadau eich awdurdod lleol. Gellir cael manylion cyswllt o'n gwefan

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>.

## Ar ôl i chi gyflwyno eich papurau enwebu

1.52 Os byddwch yn cyflwyno eich enwebiad yn electronig, dylai'r Swyddog Canlyniadau gadarnhau ei fod wedi'i dderbyn. Noder nad yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau bod yr enwebiad yn ddilys.

1.53 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad atoch yn rhoi gwybod am ei benderfyniad ynghylch a yw eich enwebiad yn ddilys ai peidio.

1.54 Os byddwch yn newid eich meddwl ar ôl i chi gyflwyno'ch papurau enwebu ac yn penderfynu nad ydych am sefyll yn yr etholiad mwyach, gallwch dynnu'ch enw yn ôl, cyn belled â'ch bod yn gwneud hynny erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad. I gael rhagor o fanylion am dynnu'n ôl, gweler isod.

## Tynnu'n ôl<sup>40</sup>

1.55 Cewch dynnu'n ôl fel ymgeisydd drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu enw'n ôl. Rhaid i chi lofnodi'r hysbysiad yng ngŵydd tyst y mae'n rhaid<sup>41</sup> iddo ardystio eich llofnod.

1.56 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond rhaid ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau naill ai:

- â llaw i'r man cyflwyno papurau enwebu neu
- yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn yr hysbysiad etholiad.<sup>42</sup>

1.57 Gellir cael [hysbysiad tynnu enw'n ôl](#) gan eich Swyddog Canlyniadau lleol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.58 Mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad tynnu enw'n ôl erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl (h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad). Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, nid yw'n bosibl tynnu'n ôl o'r etholiad, a bydd eich enw yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, cewch eich ethol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?

1.59 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ar gyfer y gymuned, neu ar gyfer pob ward yn y gymuned os yw'r gymuned yn cynnwys wardiau, erbyn 4pm ar y 18<sup>fed</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

<sup>43</sup>Bydd y datganiad yn cynnwys:<sup>44</sup>



# 16

- enw llawn neu enw a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer pob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys
- enwau ymgeiswyr nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, os o gwbl (h.y. ymgeiswyr annilys a'r rhai sydd wedi tynnu'n ôl), gan nodi'r rheswm pam nad ydynt yn sefyll mwyach
- cyfeiriad cartref pob ymgeisydd, neu os ydynt wedi gwneud cais i beidio â gwneud eu cyfeiriad cartref yn gyhoeddus, enw'r ardal berthnasol y mae eu cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad os yw eu cyfeiriad cartref y tu allan i'r DU)
- disgrifiad pob ymgeisydd (os o gwbl)
- y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn natganiad aelodaeth o bleidiau gwleidyddol pob ymgeisydd, fel y'i rhoddwyd ar eu papurau enwebu

## Cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward<sup>45</sup>

1.60 Os bydd y gymuned yn cynnwys wardiau a'ch bod yn cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward yn y gymuned honno, rhaid i chi dynnu eich enw'n ôl o bob ward ond un cyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl (h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad). Os na fyddwch yn tynnu eich enw'n ôl o bob ward ond un, yna tybir eich bod wedi tynnu eich enw'n ôl o bob ward.

## Archwilio ffurflenni enwebu ymgeiswyr eraill<sup>46</sup>

1.61 O'r diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau tan y diwrnod cyn yr etholiad, bydd ffurflenni enwebu sydd wedi cael eu cyflwyno ar agor i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol, a gall unrhyw un fynd â chopi ohonynt.

## Archwilio'r ffurflen cyfeiriad cartref<sup>47</sup>

1.62 Yn ystod oriau swyddfa arferol o'r diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau tan y diwrnod cyn yr etholiad, dim ond rhai pobl gaiff archwilio'r ffurflenni cyfeiriad cartref. Mae'r bobl hyn yn cynnwys:

- ymgeisydd arall sy'n sefyll a enwebwyd fel ymgeisydd yn yr un ardal etholiadol â chi
- asiant etholiad ymgeisydd arall sy'n sefyll (os penodwyd un) a enwebwyd fel ymgeisydd yn yr un ardal etholiadol â chi (neu, os bydd yr ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, unigolyn arall a ddewiswyd ganddo)

1.63 Ni chaniateir i unrhyw un gymryd dyfyniad ohonynt na gwneud copi ohonynt.

### A fydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad ai peidio?<sup>48</sup>

1.64 Ar ôl i'r enwebiadau gau, bydd y Swyddog Canlyniadau yn penderfynu a oes angen cynnal etholiad yn y gymuned neu, os yw'r gymuned yn cynnwys wardiau, yn y wardiau cymunedol. Os bydd mwy o ymgeiswyr na nifer y seddi ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, cynhelir etholiad.

1.65 Fodd bynnag, os bydd nifer yr ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys yn cyfateb i nifer y seddi i'w llenwi yn yr ardal etholiadol, neu'n llai na'r nifer hwn, ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, datgenir y bydd yr ymgeiswyr hynny'n cael eu hethol.

1.66 Yn yr achos hwn, bydd y Swyddog Canlyniadau yn datgan yr ymgeiswyr hynny a fydd yn cael eu hethol i'r cyngor cymuned dim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio a bydd yn gwneud hysbysiad cyhoeddus yn cynnwys enwau'r rhai a gaiff eu hethol.

## Penodi eich asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif

1.67 Gallwch benodi asiantiaid i arsylwi ar y prosesau etholiadol canlynol, y mae gennych yr hawl i arsylwi arnynt hefyd:<sup>49</sup>

Os etholir ymgeisydd mewn etholiad diwrthwynebiad, bydd yn rhaid iddo wneud datganiad o ran ei wariant ar yr etholiad o hyd.

Gweler [Rhan 3: Gwariant a rhoddion](#) am ragor o fanylion.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddechrau yn y swydd yn [Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad.](#)

# 18

- yr achlysur agor amlenni pleidleisiau post
- y bleidlais
- y cyfrif

1.68 Gellir penodi unrhyw un, ar wahân i'r bobl ganlynol, i weithredu fel asiant pleidleisiau post, pleidleisio neu gyfrif<sup>50</sup>:

- y Swyddog Canlyniadau neu aelod o'i staff
- partner neu glerc y Swyddog Canlyniadau neu aelod o'u staff
- unrhyw un na chaiff bleidleisio yn yr etholiad o ganlyniad i adroddiad llys etholiadol neu euogfarn am arferion llwgr neu anghyfreithlon o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

1.69 Ni ellir penodi mwy na phedwar asiant i unrhyw orsaf bleidleisio benodol<sup>51</sup>, oni fydd y Swyddog Canlyniadau yn caniatáu mwy na hynny. Os penodir mwy na phedwar, bydd y Swyddog Canlyniadau yn penderfynu pwy a gaiff fynychu. Dim ond un asiant pleidleisio fesul ymgeisydd a gaiff fynychu gorsaf bleidleisio ar y tro, ond gellir penodi asiant pleidleisio i fynychu mwy nag un orsaf bleidleisio. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawl i fynychu.

1.70 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn nodi uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisiau post a chyfrif y gallwch eu penodi. Caiff pob ymgeisydd benodi'r un nifer. Yn y cyfrif, oni fydd amgylchiadau arbennig, ni fydd nifer yr asiantiaid cyfrif a ganiateir fesul ymgeisydd yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif) â nifer yr ymgeiswyr.<sup>52</sup>

1.71 Rhaid i'r cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau.<sup>53</sup> Rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodir.<sup>54</sup> Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu ffurflenni ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i ffurflenni penodi asiantiaid [pleidleisiau post](#), [pleidleisio](#) a [chyfrif](#) ar wefan y Comisiwn.

1.72 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses y byddant yn ei mynychu. Rhaid i asiantiaid pleidleisio a chyfrif gael eu penodi heb fod yn

hwyrach na'r pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad.<sup>55</sup> Fodd bynnag, dim ond i'r Swyddog Canlyniadau, erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer yr achlysur agor amlenni pleidleisiau post y maent am ei mynychu, y mae'n rhaid i'r ffurflenni penodi ar gyfer asiantiaid pleidleisiau post gael eu cyflwyno.<sup>56</sup> Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i chi cyn i bob sesiwn agor pleidleisiau post ddechrau.<sup>57</sup>

1.73 Os bydd asiant yn marw neu'n methu â gweithredu, cewch benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen penodiad berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau.<sup>58</sup> Rhaid i unrhyw benodiad newydd o dan yr amgylchiadau hyn gael ei wneud yn ddi-oed.

1.74 Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chaiff asiantiaid ei wneud, a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn achlysuron agor amlenni pleidleisiau post, gorsafodd pleidleisio a'r cyfrif, yn [Rhan 5: Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#).

## Marwolaeth ymgeisydd

1.75 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.96** i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

## Gwybodaeth atodol

### Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin

1.76 Os ydych yn defnyddio enw'n gyffredin sy'n wahanol i'ch enwau gwirioneddol mewn unrhyw ffordd, gallwch ofyn am gael defnyddio eich enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin yn lle'ch enwau gwirioneddol. Er enghraifft, efallai mai 'Andy' yw'r enw cryno a ddefnyddir ar eich cyfer, yn lle'ch enw llawn cyntaf sef 'Andrew'. Os felly, gallwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur enwebu os byddai'n well gennych pe bai'r enw hwnnw'n ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.77 Mewn enghraifft arall, os mai eich enw gwirioneddol yw 'Andrew John Smith', ond mai'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gennych yw 'John Smith', gallwch ofyn am i'r enw 'John Smith' ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.78 Gallwch ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.

1.79 Cewch hefyd ddefnyddio llythrennau cyntaf fel rhan o'ch enw a ddefnyddir yn gyffredin os cânt eu defnyddio'n gyffredin mewn perthynas â chi.

1.80 Yna byddai unrhyw enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin yn ymddangos ar:

- y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r hysbysiad pleidleisio,
- y papurau pleidleisio

1.81 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gwrthod enwau a ddefnyddir yn gyffredin sy'n debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu sy'n anwedus neu'n sarhaus.<sup>59</sup> Os na chaniateir yr enw(au), bydd y Swyddog Canlyniadau yn ysgrifennu atoch gan nodi'r rheswm dros hynny. Yn yr achosion hynny, defnyddir eich enw gwirioneddol.

1.82 Os caiff y blwch ar gyfer enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur enwebu ei adael yn wag, yna bydd eich enw cyntaf neu gyfenw gwirioneddol, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau a ddefnyddir yn gyffredin a adawyd yn wag, yn cael ei ddefnyddio.

1.83 Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar eich ffurflen enwebu. Felly, os byddwch yn dewis rhoi enw a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i chi sicrhau ei fod yn enw cyntaf neu'n gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin gennych.

## Datganiad aelodaeth plaid

1.84 Rhaid i chi gynnwys datganiad aelodaeth plaid ar y ffurflen enwebu yn nodi a fuoch yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad – y cyfeirir ato fel y cyfnod perthnasol.<sup>60</sup>

1.85 Rhaid i'r datganiad nodi a ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod perthnasol.

1.86 Yn amodol ar baragraff **1.87** isod, os byddwch wedi bod yn aelod o un blaid wleidyddol gofrestredig neu fwy yn ystod y cyfnod perthnasol, rhaid i chi ychwanegu enw pob plaid wleidyddol gofrestredig rydych wedi bod yn aelod ohoni a dyddiadau'r aelodaeth yn ystod y cyfnod perthnasol. Rhaid i chi ychwanegu enw'r blaid wleidyddol gofrestredig hyd yn oed os nad yw'r blaid yn bodoli mwyach neu nad yw'n blaid wleidyddol mwyach.

I ganfod sut i gael gafael ar y gofrestr etholiadol, ewch i: [Rhan 4: Yr Ymgyrch](#)

Gall fod rhai etholwyr ar y gofrestr sydd wedi cofrestru'n ddi-enw am eu bod yn poeni am eu diogelwch.

Ni chaiff etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddi-enw lofnodi ffurflenni enwebu.

Dangosir etholwyr di-enw ar y gofrestr gyda'u rhif pleidleisio a'r llythyren 'N' yn unig (yn hytrach na'u henw a chyfeiriad).

1.87 Nid oes rhaid i chi ychwanegu enw plaid wleidyddol gofrestredig rydych yn aelod ohoni – ac rydych wedi bod yn aelod ohoni am y cyfnod perthnasol – os byddai'r disgrifiad ar y papur enwebu yn peri i bobl eich cysylltu â'r blaid honno ac os nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig arall yn ystod y cyfnod perthnasol.

1.88 Mae'n drosedd peidio â chynnwys datganiad aelodaeth plaid gyda'ch papur enwebu yn fwriadol.

Caiff y wybodaeth a ddarperir ar y datganiad aelodaeth plaid ei chynnwys ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a chaiff ei chyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau.

## Cyflwyno enwebiadau yn electronig

1.89 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cynnwys datganiad cyflwyno electronig ar yr hysbysiad etholiad.

1.90 Bydd y datganiad hwn yn nodi'r trefniadau y bydd wedi'u rhoi ar waith os byddwch am gyflwyno eich enwebiad yn electronig.

1.91 Bydd y trefniadau a ddarperir gan y Swyddog Canlyniadau yn cynnwys:

- Cyfeiriad e-bost<sup>61</sup> y gallwch anfon eich papurau enwebu iddo, neu
- Wasanaeth y gallwch ei ddefnyddio i gyflwyno eich papurau enwebu ar-lein<sup>62</sup>, neu
- Y ddau opsiwn a restrir uchod.<sup>63</sup>

1.92 Os byddwch yn dewis cyflwyno eich papurau enwebu drwy e-bost, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodir at y diben hwnnw ar y datganiad cyflwyno electronig. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn eich ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

1.93 Os byddwch yn cyflwyno eich enwebiad drwy ei anfon i gyfeiriad e-bost nas nodwyd at y diben hwnnw, ystyrir nad yw eich papur enwebu wedi cael ei gyflwyno yn ôl y gofyn.

1.94 Cyn belled ag y bo modd, dylech geisio atodi'r holl ffurflenni gofynnol ar gyfer eich enwebiad mewn un e-bost at y Swyddog Canlyniadau.

## Marwolaeth ymgeisydd

1.95 Os caiff y Swyddog Canlyniadau wybod bod ymgeisydd wedi marw yn ystod yr ymgyrch etholiadol neu hyd yn oed ar y diwrnod pleidleisio ei hun (ond cyn datgan y canlyniad), caiff y bleidlais ei chanslo.<sup>64</sup>

1.96 Yn yr achos hwnnw, bydd y Swyddog Canlyniadau yn gorchymyn etholiad newydd er mwyn llenwi'r rôl. Bydd y diwrnod pleidleisio newydd o fewn 35 diwrnod gwaith i'r diwrnod a bennwyd ar gyfer yr etholiad cyntaf. Ni fydd rhaid i ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys eisoes gael eu henwebu am yr ail dro.<sup>65</sup>

1.97 Os bydd cyd-ymgeisydd yn marw yn ystod yr ymgyrch, bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi arweiniad pellach i chi.

1.98 Os bydd ymgeisydd etholedig yn marw ar ôl datgan y canlyniad, byddai angen cynnal is-etholiad er mwyn llenwi'r rôl.

---

<sup>1</sup> Rheol 1(1) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) 2021

<sup>2</sup> Rheol 3 Atodlen 1 Rheolau Cymunedau 2021

<sup>3</sup> Rheol 5(6) Atodlen 1 Rheolau Cymunedau 2021

<sup>4</sup> a.22 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000?

<sup>5</sup> Rheol 6(3) Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021



- 
- <sup>6</sup> Rheol 7, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>7</sup> Rheol 6(3)(c) Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>8</sup> Rheol 22(6) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>9</sup> Rheol 4(b) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>10</sup> a.65A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- <sup>11</sup> Rheol 5(3)(a) Atodlen 1 Rheolau Cymunedau 2021
- <sup>12</sup> Rheol 5(3)(c) Atodlen 1 Rheolau Cymunedau 2021
- <sup>13</sup> Rheol 5(3)(d) Atodlen 1, Rheolau Cymunedau 2021 ac Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)
- <sup>14</sup> Rheol 5(5) Rheolau Cymunedau 2021
- <sup>15</sup> Rheol 9(5)(a) a (b) Atodlen 1, Rheolau Prif Ardaloedd
- <sup>16</sup> Rheol 5(4) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>17</sup> Rheol 6(3) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>18</sup> Rheol 6(3)(b) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>19</sup> Rheol 6(3)(c) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) 2021
- <sup>20</sup> Rheol 7(2) Atodlen 1 Rheolau Prif Ardaloedd 2021
- <sup>21</sup> Rheol 9, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>22</sup> Rheol 9(4) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>23</sup> Rheol 9, Atodlen 1 Rheolau Prif Ardaloedd 2021
- <sup>24</sup> Rheol 9(3), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>25</sup> Rheol 9(8) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>26</sup> Rheol 6(3) Atodlen 1 Rheolau Cymunedau 2021
- <sup>27</sup> Rheol 6(3)(b)(i) a (ii) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>28</sup> Rheol 6(8) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>29</sup> Rheol 22, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>30</sup> Rheol 22(7), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>31</sup> Rheol 22(7), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

- 
- <sup>32</sup> Rheol 22(7), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>33</sup> Rheol 3(2)(e) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>34</sup> Rheol 3(5), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>35</sup> Rheol 5 (2) (a) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>36</sup> Rheol 5 (2) (b) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>37</sup> Rheol 3(5) a (6) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>38</sup> Rheol 3(5) a (6) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>39</sup> Rheol 5(6) Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>40</sup> Rheol 12, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>41</sup> Rheol 12(2) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) Cymru 2021
- <sup>42</sup> Rheol 1(1), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>43</sup> Rheol 1(1), Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>44</sup> Rheol 13, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>45</sup> Rheol 11, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>46</sup> Rheol 17, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>47</sup> Rheol 18, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>48</sup> Rheol 20, Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>49</sup> Rheol 33, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>50</sup> Adran 99, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- <sup>51</sup> Rheol 33(3), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>52</sup> Rheol 33(5), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>53</sup> Rheol 33 (7), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>54</sup> Rheol 33 (8) Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>55</sup> Rheol 33 (8) Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- <sup>56</sup> Rheoliad 80 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- <sup>57</sup> Rheoliad 80 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- <sup>58</sup> Rheol 33(9), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>59</sup> Rheol 14(2), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>60</sup> Rheol 5(3)(c), Atodlen 1, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>61</sup> Rheol 3(6) (a) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>62</sup> Rheol 3(6) (b) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>63</sup> Rheol 3(6) (c) Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>64</sup> Rheol 67, Atodlen 1 Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

<sup>65</sup> Adran 39, RPA 1983